

Cafodd yr ymateb hwn ei gyflwyno i'r ymgynghoriad ar y cyd a gynhelir gan [y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) a'r [Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus](#) fel sail i'w [gwaith craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#)

This response was submitted to the joint consultation held by the [Health and Social Care Committee](#) and the [Public Accounts and Public Administration Committees](#) to inform their [scrutiny of Digital Health and Care Wales](#)

SDHCW 16

Ymateb gan: | Response from: Gofal Cymdeithasol Cymru | Social Care Wales



Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, cefnogi datblygiad y gweithlu gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar a chefnogi'r sector gofal cymdeithasol gyda gwella gwasanaethau, ymchwil, tystiolaeth, ac arloesi. Rydym yn falch o ymateb i'r cais am dystiolaeth i lywio'r sesiwn graffu ar y cyd gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio ar y cyd ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi'r agendâu gofal cymdeithasol ac iechyd, yn enwedig gyda'r gwaith cydweithredol a wnaed i gefnogi ein dull strategol o weithredu data gofal cymdeithaso¹. Mae'r gwaith hwn yn galluogi i'r sector gofal cymdeithasol gael dull strategol o wella'r defnydd o ddata gofal cymdeithasol i wella'r gofal a'r cymorth y mae pobl yn ei dderbyn yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni uchelgeisiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru a Chymru Iachach mae'n bwysig bod gwasanaethau di-dor i gefnogi unigolion a theuluoedd ar draws Cymru yn ymsefydlu yng Nghymru. Yn sail i hyn mae angen systemau digidol a data integredig neu wedi'u halinio. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar y rhaglen Adnoddau Data Cenedlaethol i helpu defnydd mwy cysylltiol a chydweithredol o ddata ar draws gofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ffocws strategol allweddol ar gefnogi sefydliadau'r GIG, ac er ein bod yn croesawu'r rôl arweinyddol mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei dangos ar sawl dull a rennir ar draws y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, er enghraifft: yr Adnodd Data Cenedlaethol a'r System Gofal Cymunedol a Gwybodaeth Gymraeg, nid oes ganddynt gapasiti i gefnogi sefydliadau gofal cymdeithasol yn llawn yng Nghymru y tu allan i'r mentrau hyn a rennir.

Gall enw'r sefydliad fod yn gamarweiniol i'r sector gofal cymdeithasol, a allai fod wedi rhagweld yr un lefel o gymorth sy'n cael ei ddarparu i gyrrff GIG. Mae'r dull strategol o ymdrin â data gofal cymdeithasol, yn nodi'r camau sydd eu hangen i fwrw ymlaen â'r broses o wella'r defnydd o ddata yng Nghymru, nid yw gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi mwynhau'r un buddsoddiad lefel hyd yma â darparu gwasanaethau neu ar lefel cymorth cenedlaethol i wireddu ei uchelgeisiau yn llawn. Gallai'r diffyg capasiti hwn rwystro'r gwaith o gyflawni dulliau integredig. Gyda chyllid gan raglen Adnodd Data Cenedlaethol rydym yn gweithio ar y cyd ag ADSS Cymru (y corff proffesiynol ar gyfer Cyfarwyddwyr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) i edrych ar aeddfedrwydd data gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a ddylai ein helpu ni a'r awdurdodau lleol i nodi meysydd ar gyfer cefnogaeth a datblygu pellach, yn ogystal â datblygu rhannu'r dysgu.

Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr o Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ddatblygiad a chyflwyno'r Rhaglen Ddysgu Dadansoddeg sydd wedi ei hariannu gan yr Adnodd Data Cenedlaethol. Roedd yr ail garfan hon o gynrychiolwyr yn cynnwys 12 o unigolion o ofal cymdeithasol yng Nghymru yn ogystal ag athrawon a hwyluswyr Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gwella sgiliau data'n thema allweddol arall a nodwyd yn ein dull strategol o ymdrin â data ac mae ein hadroddiad yn cwmpasu fframwaith datblygiad proffesiynol ar gyfer dadansoddwyr data gofal cymdeithasol

¹ <https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Aroddiad-Darganfod-Ymagwedd-Strategol-at-Ddata-Gofal-Cymdeithasol-yng-Nghymru-accessible.pdf>

yng Nghymru². Byddwn yn parhau i gydweithio â'n cydweithwyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru a thu hwnt i hyrwyddo a datblygu'r gwaith pwysig hwn.

Mae rheidrwydd allweddol i ni wella'n dulliau digidol o ran gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Rydym yn croesawu gwaith Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol, yn enwedig ar systemau cydweithredol sy'n cefnogi integreiddio darpariaeth weithredol iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae yna hefyd nifer eang o sefydliadau sy'n cefnogi datblygiadau ac arloesedd digidol, megis Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, sy'n cefnogi'r agenda digidol, Comisiwn Bevan a thrwy ganolfannau ymchwil, arloesi, a gwella rhanbarthol.

Yn ddiweddar rydym wedi cynnal ymchwil defnyddwyr i nodi sut y gellir cefnogi arloesedd gofal cymdeithasol, ac mae dulliau digidol a gwell defnydd o ddata, yn thema allweddol sydd wedi dod i'r amlwg mewn trafodaethau. Gyda'n cylch gwaith newydd ar gyfer cefnogi arloesedd, byddwn yn edrych i fwrw ymlaen â hyn ymhellach mewn partneriaeth ag eraill. Credwn fod rheidrwydd i bob sefydliad gydweithio'n gadarnhaol i gefnogi dull a rennir, er mwyn gwneud y mwyaf o'n datblygiadau digidol ar draws gofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweld Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel partner allweddol ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda nhw i gefnogi blaenoriaethau ei gilydd.

² <https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/cwmpasu-fframwaith-datblygiad-proffesiynol-ar-gyfer-dadansoddwyr-gofal-cymdeithasol.pdf>